Cynllun Natur y Bobl

# Cynllun Natur y Bobl

Mawrth 2023







# Cynnwys


Rhagymadrodd 4

01. Gweledigaeth i'r Dyfodol 6

02. Galwadau i Weithredu 10

Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth 12
Rheoleiddio a Gweithredu 16
Ffermio Cyfeillgar i Natur 20
Cynhyrchu bwyd a'i ddefnyddio 24
Gwarchodaeth Forol ar gyfer ein Dyfroedd Arfordirol 28
Rheoli Dyfroedd a Dalgylchoedd 32
Mynediad Lleol at Natur 36
Defnyddio Tystiolaeth yn Effeithiol 40

03. Creu Cynllun Natur y Bobl 44

04. Am y cyllidwyr a'r partneriaid cyflawni 46




# Rhagymadrodd

> **Rydym yn methu ar hyn o bryd. Mae angen i ni anadlu, bwyta ac yfed gyda natur...**
>
> **a byw'n well yn y dyfodol. I wneud hyn, mae angen i natur gael llais wrth galon y broses o wneud penderfyniadau...**
>
> **...Er bod angen i natur gael sedd wrth y bwrdd gwneud penderfyniadau, mae angen diogelu buddiannau a bywoliaeth pobl hefyd.**
>
> **Dim ond wedyn y bydd ein Cynllun Pobl yn cael ei dderbyn gan bawb."**

*Dyma ddatganiadau sydd wedi eu tynnu o Alwadau i Weithredu Cynulliad Natur y Bobl*



**Dyma Gynllun Natur y Bobl.** Wedi ei greu ar y cyd â miloedd o bobl ledled y Deyrnas Unedig, mae'n nodi eu gweledigaeth ar gyfer dyfodol byd natur a'r camau y mae angen i bob un ohonom eu cymryd i'w ddiogelu a'i adnewyddu.

**Mae Cynllun Natur y Bobl wedi cael ei ddatblygu drwy broses gyfranogol greadigol, arloesol a chynhwysol, wedi ei rhannu'n ddau gam.** Y cam cyntaf oedd **Sgwrs Genedlaethol:** galwad agored am syniadau a straeon gan y cyhoedd. Fe wnaeth hyn fwydo i mewn i'r ail gam, sef y cynulliad dinasyddion Deyrnas Unedig gyfan cyntaf ar natur: **Cynulliad Natur y Bobl,** a ffurfiwyd o 100 o bobl o bob cefndir. Mae hyn yn golygu bod Cynllun Natur y Bobl yn seiliedig ar fwy nag arolwg neu bôl piniwn — yn hytrach, mae'n ganlyniad dinasyddion cyffredin o bob cefndir yn dod at ei gilydd i adolygu tystiolaeth a chreu cynllun sy'n rhy fawr i'w anwybyddu.



Cynllun Natur y Bobl yw llais y cyhoedd yn y Deyrnas Unedig sy'n galw am roi terfyn ar niwed i fyd natur yn y Deyrnas Unedig a gosod nodau uchelgeisiol ar gyfer ei adnewyddu. Mae'n galw am i natur fod yn ffactor allweddol wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel, ac ar gyfer targedau ar draws y Deyrnas Unedig a thargedau rhanbarthol i adnewyddu byd natur a chynyddu bioamrywiaeth. Mae Cynllun Natur y Bobl hefyd yn pwysleisio'r angen i fwy o bobl fod yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniadau mawr, gan gynnwys drwy greu cynulliad parhaol ar natur y Deyrnas Unedig.



CAM 1:
**Y Sgwrs Genedlaethol**

2:
**Cynulliad Natur y Bobl**

# 01. Gweledigaeth i'r Dyfodol

**Dyma ddatganiadau gweledigaeth aelodau Cynulliad Natur y Bobl - yn eu geiriau eu hunain. Mewn dyfodol lle mae natur yn cael ei diogelu, ei hadfer a'i hadnewyddu...**



“**Mae natur yn cael ei gwerthfawrogi a’i pharchu gan bawb.** Mae dull cydweithredol a thymor hir o flaenoriaethu natur ym mhob penderfyniad. Mae hyn wedi creu byd wedi’i rymuso, sy’n hapusach ac yn iachach, gyda natur yn gysylltiedig â bywyd bob dydd. Mae hyn wedi gosod sylfaen ar gyfer llesiant pob bywyd yn y dyfodol.”






“Mae pobl a natur yn cyd-fynd ac mae pobl ledled y wlad yn profi natur ar garreg eu drws.

Mae pobl yn ymwybodol o’r ansawdd aer gwell a’r amrywiaeth o rywogaethau maent yn dod ar eu traws bob dydd.

Mae gwleidyddion, elusennau, cyrff anllywodraethol, gwyddonwyr yn gweithio gyda’i gilydd, mewn ffyrdd gwybodus, i sicrhau bod bywyd gwyllt ffyniannus yn cael lle blaenllaw ym mhob penderfyniad.”

**Rydym yn deall bod angen i natur ffynnu, er budd ein bywydau ni i gyd.**



“**Mae cydbwysedd rhwng anghenion dynol a rhai nad ydynt yn rhai dynol, ac rydym yn ysgwyddo cyfrifoldeb unigol ac ar y cyd i wella, cynnal a galluogi natur i ffynnu.**

Mae natur y daith rydym wedi bod arni wedi gwreiddio yn ein hymwybyddiaeth.  Mae’r cydbwysedd hwn bellach yn ail natur i ni, ac mae’n fforddiadwy i ni ac i fyd natur.

Rhodd natur i ni yw ein gwneud ni’n fwy cysylltiedig fel cymdeithas. Mae llesiant a hwyliau pawb ohonom wedi gwella, ac mae cenedlaethau’r dyfodol yn cael eu hysbrydoli.”

# 01. Gweledigaeth i'r Dyfodol

**Mae adnewyddu natur sy’n seiliedig ar dystiolaeth yn ganolog i addysg gydol oes ac mae’n cynnwys profiadau go iawn.**

Mae’r defnydd ymarferol o adnewyddu ym myd natur wedi ei integreiddio ar draws cenedlaethau a diwylliannau; gan greu atgofion sy’n cael eu sbarduno gan yr awydd am wybodaeth sydd yn ein plant.”





**Rydym yn gallu treulio amser ym myd natur bob dydd, boed hynny’n chwarae, gweithio neu dreulio amser hamdden yn lle’r ydym yn byw.**

Rydym wedi cael ein haddysgu am fanteision natur i lesiant meddyliol a chorfforol ar bob cam o fywyd — ac rydym yn deall bod natur yn ein helpu ni drwy ddiogelu natur.

Rydym yn gwarchod, yn gwella ac yn adnewyddu cynefinoedd ac ecosystemau i’r safonau ecolegol uchaf. Rydym yn troi at fyd natur am ei fanteision anniriaethol i’n hiechyd a’n llesiant.”





**Mae natur yn cael ei blaenoriaethu, yn cael ei gwerthfawrogi, ac yn derbyn gofal. Mae digonedd o rywogaethau ac mae natur yn ffynnu.**

Mae pawb yn chwarae eu rhan yn gofalu am fyd natur ac mae hyn wedi digwydd oherwydd bod y Llywodraeth wedi gweithredu a, thrwy fod yn fwy gwybodus, mae pobl wedi codi eu llais ac wedi dod yn llais dros fyd natur.”

# 02. Galwadau i Weithredu

**Wrth galon Cynllun Natur y Bobl mae Galwadau i Weithredu:** cyfres o argymhellion ar y camau mwyaf brys a dylanwadol i'w cymryd yn awr i sicrhau newid trawsnewidiol.

**Mae'r argymhellion hyn yn deillio'n uniongyrchol o'r sgwrs gyhoeddus fwyaf erioed yn y Deyrnas Unedig** am ddyfodol byd natur, a oedd wedi ei strwythuro ar draws **dau gam.** Mae hyn yn eu gwneud yn ystyrlon ac yn ddilys fel sail ar gyfer gweithredu.

CAM 1:
**Y Sgwrs Genedlaethol**

**Yn y cam cyntaf,** y Sgwrs Genedlaethol, arweiniodd galwad agored am fewnbwn a syniadau at bron i 30,000 o ymatebion dros gyfnod o bedair wythnos.

CAM 2:
**Cynulliad Natur y Bobl**

**Yn yr ail gam,** cafodd sampl gynrychioliadol o boblogaeth y Deyrnas Unedig, a ddewiswyd ar hap, ei recriwtio i ffurfio Cynulliad Natur y Bobl.

Cyfarfu'r grŵp hwn i gynnal trafodaethau am bedwar penwythnos dros bedwar mis, gan ddilyn egwyddorion arfer gorau sefydledig ar gyfer democratiaeth gydgynghorol, er mwyn datblygu'r Galwadau i Weithredu sydd wrth galon Cynllun y Bobl.







**Mae'r Galwadau i Weithredu wedi eu grwpio'n wyth thema:**

- **Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth**
- **Rheoleiddio a Gweithredu**
- **Ffermio cyfeillgar i natur**
- **Cynhyrchu bwyd a'i ddefnyddio**
- **Gwarchodaeth Forol ar gyfer ein Dyfroedd Arfordirol**
- **Rheoli Dyfroedd a Dalgylchoedd**
- **Mynediad Lleol at Natur**
- **Defnyddio Tystiolaeth yn Effeithiol**

Mae'r prif Alwadau i Weithredu wedi eu grwpio ar dudalen gyntaf pob adran, dilynir hyn gan fanylion pellach am y gweithredu yr hoffai aelodau'r cynulliad eu gweld yn cael eu gweithredu gan:

- Lywodraethau Cenedlaethol
- Lywodraethau Lleol
- Fusnesau
- Fusnesau Bwyd
- Elusennau a Chyrff Anllywodraethol
- Unigolion a Chymunedau



02. **Galwadau i Weithredu:**

# Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth

## Rydym yn Galw Am:

### SEFYDLU UNDEB O SEFYDLIADAU DYLANWADOL

... gan gynnwys arweinwyr busnes, cymdeithas sifil a sefydliadau gwyddonol — **i orfodi cynnwys cymesur yr effaith ar natur wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel.** Fel egwyddor sylfaenol, nid ydym yn gwneud mwy o niwed i natur; a gyda'n gilydd rydym yn gosod targedau ledled y Deyrnas Unedig a thargedau rhanbarthol i adnewyddu byd natur a chynyddu bioamrywiaeth, dan arweiniad arbenigwyr ecolegol.

### 'ASESIADAU EFFAITH AR NATUR'

**... mewn prosesau tendro a chaffael.**

### CYDWEITHIO AC AGENDA AR Y CYD

**... sy'n darparu arweinyddiaeth, yn arwyddo ac yn hwyluso cyfathrebu a chydlynu** rhwng elusennau, llywodraeth, prifysgolion, diwydiant a chymunedau er mwyn cydweithio â phwrpas a gweledigaeth gyffredin ar gyfer byd natur.



02. **Galwadau i Weithredu:**

# Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth




Mae angen i natur gael llais **wrth galon penderfyniadau.**



Rydym yn galw ar **Lywodraethau Cenedlaethol** i:

- **Wneud ymrwymiad trawsbleidiol** i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y Deyrnas Unedig. Dylai Llywodraeth Cymru ddangos manteision ei Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i Undeb y sefydliadau.
- **Ystyried sut i gynnwys dyfodol natur yn yr holl benderfyniadau a pholisïau cenedlaethol a lleol.**



Rydym yn galw ar **fusnesau** i:

- **Gynnwys Cyfarwyddwr Natur ar eu Bwrdd,** a'u rôl yw monitro ac adrodd ar eu heffaith ar natur.



Trwy **gydweithio** daw gwell canlyniadau i natur.





Rydym yn galw ar **elusennau a chyrff anllywodraethol** i:

- **Arwain y gwaith o gytuno ar lwybr ar y cyd i ddiogelu natur** y gall pob un ohonynt gyfrannu ato, gan eu bod yn sefydliadau dibynadwy sydd â chefnogaeth helaeth ar lawr gwlad o ran cyrraedd cymunedau.

Rydym yn galw ar **Lywodraethau Lleol** i:

- **Helpu i gydlynu gwaith ar lawr gwlad mewn ardaloedd lleol,** gan gynnwys creu cyfeiriaduron lleol o bartneriaid a phrosiectau.



02. **Galwadau i Weithredu:**

# Rheoleiddio a Gweithredu



Nid yw ein systemau presennol yn llwyddo i flaenoriaethu natur na atal ei ddirywiad.





## Rydym yn Galw Am:

### I DDEDDFWRIAETH A DYNODIADAU PRESENNOL I DDIOGELU NATUR GAEL EU GORFODI'N GADARNACH

**... ac am gyflwyno deddfwriaeth a thargedau cryfach a mwy uchelgeisiol i ddangos bod natur yn cael ei gwerthfawrogi.**

### I GORFF GAEL EI NODI AR FRYS I YSGWYDDO'R CYFRIFOLDEB DROS GYDBWYSO BUDDIANNAU CYMDEITHASOL AC ECONOMAIDD

**... wrth wneud penderfyniadau am warchod ac adfer natur.**

### GYNULLIAD NEWYDD, PARHAOL AR GYFER BYD NATUR LEDLED Y DEYRNAS UNEDIG

**... sy'n cynnwys cynrychiolwyr penodedig o Gyrff Anllywodraethol, diwydiant ac aelodau o'r cyhoedd.** Eu rôl fyddai craffu, herio a dwyn i gyfrif arweinwyr a chamau gweithredu'r llywodraeth sy'n effeithio ar natur.

### ARFER NEWYDD GALL BUSNESAU WELD GWERTH YNDDO, AC YR ANNOGIR HWY I GREU GWERTH, DRWY AMDDIFFYN NATUR.

**Rydym yn galw am adroddiadau cliriach ar weithgareddau a chostau gweithredu i ddiogelu natur,** manteision treth ar gyfer ymchwil a datblygiadau sy'n ystyriol o fyd natur a thablau cynghrair o fusnesau sy'n ystyriol o fyd natur.



02. **Galwadau i Weithredu:**

# Rheoleiddio a Gweithredu

Rydym yn galw ar **Lywodraethau Lleol** i:

- **Sicrhau bod anghenion a safbwyntiau rhanbarthol a lleol yn cael eu cynrychioli yn y Cynulliad Natur parhaol.**
- **Edrych ar blismona lleol a chosbau am droseddau yn erbyn natur.**
- **Ystyried canfyddiadau o'r corff yn cydbwyso buddiannau cymdeithasol ac economaidd** wrth wneud penderfyniadau am warchod ac adfer natur a'u cymhwyso'n lleol.

Rydym yn galw ar **Fusnesau Bwyd** i:

- **Fod yn glir ynghylch costau gwneud newidiadau i arferion sy'n fwy cyfeillgar i natur** a gallu trosglwyddo rhai o'r rhain i ddefnyddwyr.
- **Rhannu enghreifftiau o arferion da o ran bod yn ystyriol o natur,** gan barhau i weithredu'n broffidiol, er mwyn arwain drwy esiampl.



Rhaid i ni **dorri'r cylch o flaenoriaethu elw dros fyd natur.** Byd busnes yw gweithredydd pwysicaf y newid hwn.

Rydym yn galw ar **Unigolion a Chymunedau** i:

- **Fod yn wybodus am sut mae asedau natur yn eu hardal i fod i gael eu gwarchod** (yn enwedig safleoedd gwarchod dynodedig); cymryd cyfrifoldeb personol dros eu gweithredoedd eu hunain yn y mannau hyn a chael eu grymuso i weithredu ynghylch difrod i natur lle maent yn byw.
- **Newid eu patrymau defnyddio i gefnogi busnesau sy'n ystyriol o natur,** hyd yn oed os yw'r costau iddynt eu hunain yn uwch.



Rydym yn galw ar **elusennau a chyrff anllywodraethol** i:

- **Dyrannu ymchwilwyr i weithio gyda busnesau** i'w helpu i ddeall, monitro a lleihau eu heffeithiau.
- **Gweithio gydag Awdurdodau** a darparu swyddogaeth graffu ar reoleiddio a gorfodi mesurau gwarchod natur.
- **Gweithio gyda'r Gymuned Ymchwil** i ddarparu tystiolaeth ar atebion a sut i reoli cyfaddawdau.



Rydym yn galw ar **Lywodraethau Cenedlaethol** i:

- **Gyflwyno deddfwriaeth** sy'n ymgorffori'r Cynulliad Natur fel corff rheoleiddio parhaol.
- **Dangos arweinyddiaeth drawsbleidiol a chymryd safbwynt hirdymor ar ddiogelu ac adfer natur** drwy roi digon o adnoddau i'r Cynulliad hwn a chyflwyno gwybodaeth dryloyw iddo, yn ogystal â gweithredu ar ei argymhellion.
- **Nodi neu sefydlu cyrff perthnasol, ar y lefel briodol i wneud penderfyniadau,** i archwilio goblygiadau canolbwyntio ar adnewyddu natur a gwneud argymhellion i sicrhau bod rhanddeiliaid yr effeithir arnynt yn gallu trawsnewid mewn ffyrdd teg a fforddiadwy.
- **Blaenoriaethu natur drwy gyllido a darparu adnoddau i asiantaethau rheoleiddio ac amddiffyn natur yn ddigonol.**
- **Ystyried cysyniad "trosedd yn erbyn natur" yn cael ei gyflwyno i'r gyfraith,** gyda chosb uchel am droseddau mawr. Gall llywodraethau datganoledig, rhanbarthol a lleol edrych ar blismona lleol a chosbau am y troseddau hyn.
- **Darparu cymhellion i fusnesau newid i arferion sy'n ystyriol o natur drwy gymorthdaliadau,** grantiau neu fanteision treth ar y lefel briodol o wneud penderfyniadau, gyda llywodraeth ganolog yn datganoli pŵer lle bo angen.

## 02. **Galwadau i Weithredu:**

# Ffermio Cyfeillgar i Natur



## Rydym yn Galw Am:

### YMRWYMIAD HIRDYMOR, TRAWSBLEIDIOL I SICRHAU BOD GWARCHOD NATUR YN FLAENORIAETH

**... ar gyfer arferion ffermio yn y dyfodol ledled y Deyrnas Unedig.**

### WELL CYFATHREBU RHWNG FFERMWYR,

... a'r cyrff sy'n eu cynrychioli, **i sicrhau bod ffermio cynaliadwy sy'n ystyriol o natur yn cael ei hyrwyddo.**

### AILWAMPIO'R TREFNIADAU CYMHORTHDAL PRESENNOL

**... i ddarparu cymhellion i ffermwyr sy'n ffermio'n gynaliadwy ac sy'n ymrwymo i ail-wylltio tir nad yw'n gynhyrchiol, gan gosbi'r rhai sy'n niweidio'r amgylchedd drwy beidio â ffermio'n gynaliadwy.**

Dylid darparu cymorthdaliadau ar wahanol gyfraddau ar gyfer tir cynhyrchiol ac anghynhyrchiol, gan roi blaenoriaeth i ail-wylltio a gwella bioamrywiaeth a chyfyngu ar arferion ffermio dwys er mwyn diogelu ansawdd pridd a dŵr.

Rhaid darparu cymorthdaliadau sy'n seiliedig ar warchod natur i ffermwyr i'w helpu drwy'r newid hwn a chymell arferion ffermio sy'n ategu gwarchod natur a chynhyrchu bwyd yn lleol.

Gyrraedd cydbwysedd rhwng **sicrwydd bwyd** ac **amddiffyn natur.**

02. **Galwadau i Weithredu:**

# Fffermio Cyfeillgar i Natur

Rydym yn galw ar **Lywodraethau Cenedlaethol** i:

- **Addasu cymorthdaliadau** fel eu bod yn gallu gwneud tri pheth ar unwaith: **cynyddu'r bwyd sy'n cael ei gynhyrchu, tynnu tir o ffermio a'i roi i fyd natur, a lleihau effeithiau amgylcheddol.** Mae angen i lywodraethau ystyried hyblygrwydd rhanbarthol wrth reoli a dosbarthu grantiau. Rydym eisiau gweld Gwledydd y Deyrnas Unedig yn cydweithio, a chyda llywodraethau lleol, gan ddatganoli grym a chyllideb gan mai'r ardaloedd lleol sy'n adnabod eu hunain orau.
- **Sicrhau bod polisïau a chymorthdaliadau i'r diwydiant amaethyddol yn galw am lai o gynnyrch bwyd wedi eu mewnforio** ac yn cynyddu faint o fwyd sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol sy'n cael ei dyfu/ei fagu mewn ffyrdd ystyriol o fyd natur.
- **Darparu cymhellion, a gall helpu drwy leihau biwrocratiaeth** o ran grantiau a chymorthdaliadau a thrwy dynhau deddfwriaeth i annog pobl i beidio â mabwysiadu arferion gwael.



Rydym yn galw ar **Lywodraethau Lleol** i:

- **Gyflwyno rheolau a phrosiectau lleol i annog marchnadoedd ffermwyr,** rhannu gwybodaeth yn lleol a hyrwyddo arferion da lleol.

Rydym yn galw ar **Fusnesau Bwyd** i:

- **Annog y symudiad [i ffermio cynaliadwy]** drwy integreiddio egwyddorion ffermio sy'n ysytriol o natur yn eu gweithrediadau
- **Helpu i ledaenu gwybodaeth am ddulliau sy'n ystyriol o'r amgylchedd.**
- **Bod yn barod i leihau faint o dir ledled y Deyrnas Unedig** sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu bwyd er mwyn rhoi lle i fyd natur ailsefydlu.
- **Datblygu system achredu fewnol sy'n gwobrwyo ffermio cynaliadwy.**
- **Cynnull Cynulliad Amaethwyr dros Natur** i ganfod hyrwyddwyr a'u cefnogi (drwy gyllid cymrodoriaeth) i ysbrydoli a chynghori ffermwyr eraill.
- **Rhaid lobïo a pherswadio'r NFU a'i gael i arwain y diwydiant mewn ffordd fwy cynaliadwy sy'n cefnogi bioamrywiaeth a natur.**

Rydym yn galw ar **elusennau a chyrff anllywodraethol** i:

- **Ymchwilio i arferion gorau** a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i ffermwyr.
- **Cefnogi rhannu gwybodaeth,** gyda chynlluniau gwobrwyo ar gyfer ffermwyr llwyddiannus.



Rydym yn galw ar **Unigolion a Chymunedau** i:

- **Cefnogi ffermio sy'n ystyriol o natur fel defnyddwyr.**
- **Ymrwymo i sicrhau bod ffermio sy'n ystyriol o natur yn mynd law yn llaw â newid mewn diet,** neu bydd hyn yn cynyddu effaith y Deyrnas Unedig ar newid yn yr hinsawdd ac effeithiau ar natur dramor. Mae angen i'r newid ddigwydd yr un pryd â phobl yn y Deyrnas Unedig yn penderfynu addasu eu diet i fwyta llai o gig os ydynt eisiau gwerthfawrogi natur.



02. **Galwadau i Weithredu:**

# Cynhyrchu bwyd a'i ddefnyddio



## Rydym yn Galw Am:

### SGWRS GENEDLAETHOL LEDLED Y DEYRNAS UNEDIG I ARCHWILIO, CYNGHORI AC ANNOG YR ANGEN I NEWID EIN DIET

... a sut i wneud hyn. Byddai hyn yn addysgu pobl am effaith ein bwyd a'n dewisiadau bwyd ar natur a'n hiechyd. Byddem yn ceisio i'r rhan fwyaf o bobl newid eu diet er gwell a **cheisio lleihau'r defnydd o gig, llaeth a physgod gymaint â 25% o leiaf erbyn 2030.**

### BOLISÏAU SY'N GORFODI POB CWMNI SY'N YMWNEUD Â CHYNHYRCHU BWYD A MANWERTHU I ROI'R GORAU I'W HEFFAITH NEGYDDOL AR YR AMGYLCHEDD NATURIOL

**... ac i gefnogi'r gwaith o adfer byd natur.** Rydym eisiau gweld yr egwyddor "y llygrwr sy'n talu" yn cael ei gorfodi i leihau faint o lygryddion sy'n effeithio ar yr amgylchedd a'n hiechyd ac i sicrhau nad yw cynhyrchu, prosesu a manwerthu bwyd yn dinistrio cynefinoedd yn y Deyrnas Unedig neu dramor.

### ARCHFARCHNADOEDD — A'R HOLL FANWERTHWYR BWYD — I FOD YN DRYLOYW

**... ynghylch ffynonellau ac effaith cynhyrchion ar natur drwy safon ansawdd glir.**

Byddem yn ceisio i'r rhan fwyaf o bobl newid eu diet er gwell a cheisio **lleihau'r defnydd o gig, llaeth a physgod gymaint â 25% o leiaf erbyn 2030.**

### GANOLFANNAU BWYD MEWN ARDALOEDD LLEOL SY'N HYGYRCH I BAWB,

**... er mwyn galluogi pobl i gael mynediad rhwydd at fwyd cynaliadwy sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol.** Dylai cydlynwyr hybiau bwyd weithio gyda sefydliadau cymunedol, archfarchnadoedd, ffermwyr a thyfwyr, i werthu bwyd sy'n cael ei gynhyrchu mor lleol â phosibl. Dylai arwyddion mewn archfarchnadoedd nodi lle mae bwyd wedi ei gynhyrchu a dylid annog "prynu'n lleol".

### LYWODRAETHAU I ROI RHEOLIADAU AR WAITH

**... sy'n atal manwerthwyr bwyd (archfarchnadoedd yn benodol)** rhag gyrru ymddygiad gwastraffus ymysg cynhyrchwyr a defnyddwyr sy'n golygu bod cyfran uchel o'r bwyd sy'n cael ei gynhyrchu yn cael ei daflu i ffwrdd.



02. **Galwadau i Weithredu:**

# Cynhyrchu bwyd a'i ddefnyddio





Rydym yn galw ar **Lywodraethau Cenedlaethol** i:

- **Creu tasglu cenedlaethol i arwain sgwrs genedlaethol. Dylent wneud hyn fel menter drawsbleidiol.** Ei gylch gwaith fyddai dod â negeseuon cydlynol ar draws yr holl actorion ac ailgysylltu pobl â bwyd a diet.
- **Gweithredu'r ymrwymiadau** yn y Strategaeth Fwyd Genedlaethol (yn Lloegr) ac ymrwymiadau tebyg mewn gweinyddiaethau datganoledig (e.e. Deddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban))
- **Gymuned ymchwil** i ddarparu tystiolaeth gadarn ar effaith dietau ar yr amgylchedd ac iechyd.
- **Cefnogi ffermwyr yn ariannol** i hwyluso newidiadau i'r hyn maent yn ei dyfu a'i gynhyrchu i'r newid diet hwn — e.e. taliadau gwledig, ELMS os/lle bo angen.
- **Goruchwylio safonau ansawdd** a sicrhau bod corff priodol yn goruchwylio labelu bwyd ac yn sicrhau ei ansawdd.
- **Sicrhau bod deddfwriaeth** a pholisi sy'n atgyfnerthu'r gwaith hwn [egwyddor y llygrwr sy'n talu] ac i sicrhau nad yw costau'n cael eu trosglwyddo'n annheg.
- **Gosod yr agenda** drwy gyflwyno'r polisïau a'r rheoliadau sy'n atal gwastraffu bwyd yn ddiangen.

Rydym yn galw ar **Lywodraethau Lleol** i:

- **Ceisio cyfyngu ar fannau bwyd afiach,** newid y bwyd sy'n cael ei gynnig mewn ysgolion ac ysbytai h.y. drwy gaffael, ac arwain mentrau addysg/ailaddysgu yn eu hardal.
- **Helpu i ddosbarthu bwyd dros ben,** cyflwyno a gorfodi'r rheolau sy'n ei gwneud yn haws rhannu bwyd, galluogi mwy o gompostio gwastraff bwyd ac ymgymryd â'r addysg a'r cyfathrebu sydd eu hangen gyda'r cyhoedd.
- **Rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod tir ar gael i gymunedau** ar gyfer rhandiroedd a mannau tyfu cymunedol er mwyn galluogi pobl i dyfu eu bwyd eu hunain.
- **Helpu i ledaenu gwybodaeth** am fentrau lleol a galluogi marchnadoedd ffermwyr lleol.



Rydym yn galw ar **Fusnesau Bwyd** i:

- **Labelu bwyd o ran effaith amgylcheddol** a helpu'r cyhoedd i newid arferion coginio drwy gynnig dewisiadau eraill ar gyfer ryseitiau ar gynnyrch e.e. cyfnewid cyw iâr am ffacbys. Gallant recriwtio enwogion i gefnogi'r sgwrs/ymgyrch.
- **Uno i arloesi a sbarduno'r gwaith o ddatblygu safon ansawdd dryloyw** y gellir ei defnyddio ar becynnau fel eu cyfraniad at ddyfodol byd natur. Dylid gwneud hyn heb gost uniongyrchol i ddefnyddwyr.
- **Bod yn atebol am y niwed i'r natur** maent wedi ei achosi drwy gymhwyso a gorfodi'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'. Mae angen iddynt fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le.
- **Cyhoeddi a hyrwyddo eu nodweddion amgylcheddol blob blwyddyn,** gan gynnwys yr hyn maent wedi ei wneud i helpu i adnewyddu byd natur, nid dim ond ei ddiogelu.
- **Gweithio gyda'n gilydd i ddod â bwyd lleol yn uniongyrchol i ddefnyddwyr,** gan ddatblygu cysylltiadau newydd sy'n deg i bob parti.
- **Ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros wastraff [bwyd]** a sbarduno newid drwy weithio'n agosach gyda chyflenwyr lleol a chanolbwyntio ar rwydweithiau dosbarthu lleol.
- **Cefnogi dewis y defnyddiwr yn well** i brynu eitemau sengl ffres neu gynnyrch â llai o ddeunydd pecynnu.

Rydym yn galw ar **elusennau a chyrff anllywodraethol** i:

- **Weithio mewn partneriaeth ag archfarchnadoedd a busnesau bwyd** i helpu gyda'r gwaith maent yn ei wneud o ran labelu a gweithredu polisïau tryloywder.
- **Paratoi a chyhoeddi tabl cynghrair o gwmnïau da a drwg.**

Rydym yn galw ar **Unigolion a Chymunedau** i:

- **Cynnig a chymryd rhan yn y sgwrs [ynghylch diet]** a gweithredu ar ddysgu sut i baratoi bwyd gyda gwahanol gynhwysion.
- **Newid eu patrymau defnyddio** i gefnogi busnesau sy'n ystyriol o natur, hyd yn oed os yw'r costau iddynt eu hunain yn uwch.





02. **Galwadau i Weithredu:**

# Gwarchodaeth Forol ar gyfer ein Dyfroedd Arfordirol









## Rydym yn Galw Am:

### Y LLYWODRAETH A'R DIWYDIANT I SICRHAU BOD CYDBWYSEDD BYD NATUR YN Y MÔR YN CAEL EI ADFER.

Bydd hyn yn cynnwys **lleihau ac ailddyrannu cwotâu pysgota yn sylweddol,** gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a'r wybodaeth wyddonol ddiweddaraf, er mwyn i ni allu **gwarchod bioamrywiaeth forol ac adfer stociau pysgod lleol** i bwynt sy'n galluogi pysgotwyr i gael y cynnyrch mwyaf cynaliadwy mewn unrhyw ardal. Bydd hefyd yn golygu **sicrhau bod bwyd môr yn cael ei gaffael a'i ddosbarthu'n gynaliadwy.**

Rydym yn argymell **cyflwyno monitro o bell yn orfodol ar unwaith er mwyn gorfodi safonau a rheoliadau.** Dylid cyflawni hyn a thalu amdano drwy gronfa a ddelir gan y Llywodraeth sy'n cynnwys cyfraniadau o ddirwyon y gadwyn gyflenwi bwyd am beidio â chydymffurfio o ran cwotâu a threthu sy'n gysylltiedig â'r diwydiant.

### GREU CYFRES O BARCIAU CENEDLAETHOL MOROL

**... gan ddefnyddio strwythurau parciau cenedlaethol presennol ac ymgorffori ardaloedd sydd wedi eu gwarchod ar hyn o bryd.** Byddai'r rhain yn cael eu dynodi'n barthau 'dim cymryd' ac yn gymysgedd o safleoedd arfordirol ac ar y môr, a fyddai'n cael eu dewis i gynyddu bioamrywiaeth a lleihau effeithiau pysgota mewn ardaloedd dynodedig.

Dylent gael eu goruchwylio gan y gymuned wyddonol i fonitro effeithiau llygredd ar y tir a'r môr a'r galw am bysgota ar stociau pysgod ac iechyd y môr. Dylai'r gwaith monitro hwn gael ei gyllido mewn ffordd gyfunol gan lywodraethau, cyrff anllywodraethol, y gymuned ymchwil academaidd a'r diwydiant pysgota sector preifat i gefnogi cynaliadwyedd y diwydiant, a dylai gael ei reoli fel awdurdod lleol annibynnol gyda chylch gwaith **i gynyddu bioamrywiaeth yn yr ardal 30% erbyn 2030.**



Rhaid i ni sicrhau bod gan bobl **ddewisiadau bwyd gwell a bod bwyd môr yn parhau yn ddewis bwyd hygyrch, iach i bawb.**



02. **Galwadau i Weithredu:**

# Gwarchodaeth Forol ar gyfer ein Dyfroedd Arfordirol





Rhaid i ni uwchraddio o gael ardaloedd gwarchodedig morol i **gynyddu bioamrywiaeth, amddiffyn stociau pysgod ac adfer ein gwelyau môr mewn dull adnewyddadwy.**





Rydym yn galw ar **Lywodraeth Genedlaethol** i:

- **Gryfhau ac ehangu rheoleiddio,** gan gynnwys gorfodi monitro electronig o bell a gosod targedau ar gyfer lefelau dalfeydd cynaliadwy a gwahardd dulliau dinistriol.
- **Cymell y diwydiant pysgota** i bysgota'n gynaliadwy.
- **Nodi safleoedd allweddol ar draws y wlad a deddfu** i roi statws Parc Cenedlaethol Morol iddynt.

Rydym yn galw ar **Fusnesau Bwyd** i:

- **Canolbwyntio ar fodloni gofynion yn y farchnad leol** ac annog defnyddwyr i fwyta cynhyrchion wedi eu pysgota yn gynaliadwy, hyd yn oed os ydynt yn llai cyfarwydd iddynt.
- **Addysgu'r cyhoedd am fanteision bwyta pysgod cynaliadwy,** gan fynd ati i hyrwyddo o ble mae cynnyrch bwyd môr wedi dod.
- **Hyrwyddo a chefnogi pysgota lleol drwy gadwyni cyflenwi integredig a byrrach.**

Rydym yn galw ar **Unigolion a Chymunedau** i:

- **Fod yn barod i amrywio eu diet** i gynnwys yr hyn y gellir ei bysgota yn lleol.
- **Cynrychioli llais lleol pwerus yn y Parciau Morol Cenedlaethol** i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar warchod natur ac yn dod â manteision yn lleol i'w canlyn.









Rydym yn galw ar **elusennau a chyrff anllywodraethol** i:

- **Weithio ochr yn ochr â'r diwydiant** i'w helpu i wybod beth i'w wneud a darparu tystiolaeth ac atebion i'r chwaraewyr allweddol.
- **Darparu gwybodaeth ac arbenigedd a sbarduno prosiectau ymchwil ac addysg o amgylch y Parciau Morol Cenedlaethol.** Gallant hefyd ddod yn geidwaid y Parciau.





02. Galwadau i Weithredu:

# Rheoli Dyfroedd a Dalgylchoedd





## Rydym yn Galw Am:

### ADFER POB AFON A THIR GWLYB AR FRYS

... ar frys i statws ecolegol iach, wedi ei sbarduno gan Fframwaith Rheoli Dŵr gyda chymhellion ar gyfer cydymffurfio a chosbau am beidio â chydymffurfio (yn seiliedig ar egwyddor 'y llygrwr sy'n talu').

### I HOLL DDEFNYDD DŴR Y CARTREF GAEL EI BRISIO A'I FESUR

**... a chydnabod canlyniadau'r camddefnydd.**

### STRATEGAETH GENEDLAETHOL HIRDYMOR I GREU SYSTEM DŴR GWASTRAFF SY'N LLEIHAU'R RISG Y BYDD CARTHION YN DOD I MEWN I'N HAMGYLCHEDD NATURIOL

**... ac sy'n cefnogi adfer ac adnewyddu natur drwy gynnal fframweithiau a safonau perthnasol.**

### WELLIANNAU IECHYD ECOLEGOL SYLWEDDOL

**... i ddalgylchoedd afonydd yn seiliedig ar dargedau hirdymor sy'n rhwymo'n gyfreithiol, gydag ôl-effeithiau ar gyfer unrhyw darged nas cyrhaeddwyd.** Mae angen i bartneriaid — awdurdodau lleol, tirfeddianwyr, cymunedau, cwmnïau dŵr ac asiantaethau'r llywodraeth — **ddatblygu uwchgynllun ar y cyd ar gyfer adnewyddu.** Mae hyn yn cynnwys rheoli a thrin carthion yn well, cael gwared ar gemegau niweidiol yn enwedig mewn rolau nad ydynt yn hanfodol, gwella arferion amaethyddol i leihau dŵr ffo i afonydd, lleihau llifogydd ac yn canolbwyntio ar atebion sy'n seiliedig ar natur.

## 02. Galwadau i Weithredu:

# Rheoli Dyfroedd a Dalgylchoedd





Rydym yn galw ar **Lywodraethau Cenedlaethol** i:

- **Weithio gyda rheoleiddwyr dŵr i hyrwyddo safonau a gorfodi rheoliadau.** Rhaid iddynt fynnu bod cwmnïau dŵr yn buddsoddi mwy o'u helw mewn uwchraddio seilwaith yn ogystal â darparu cyllid. **Ni all hyn ddod o bocedi defnyddwyr.**

Rydym yn galw ar **Lywodraethau Cenedlaethol** a **Lleol** i:

- **Weithio gyda'i gilydd i nodi safleoedd blaenoriaeth ar draws y wlad ac asiantaethau gweithredol adnoddau** i gynllunio camau gweithredu, ochr yn ochr â chymunedau lleol, i sbarduno newid.

Rydym yn galw ar **Lywodraethau Lleol** i:

- **Arwain y gwaith o ddod â phartneriaid perthnasol at ei gilydd i ddatblygu cynllun ar gyfer adnewyddu dalgylchoedd afonydd** gan fod ganddynt gyfrifoldeb cynllunio yn eu hardaloedd a bod ganddynt lwybrau i gymunedau lleol i'w cynnwys.
- **Gweithio gyda chyflenwyr dŵr ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig i sefydlu a gweithredu system gyson ar gyfer cyflwyno mesuryddion dŵr** i eiddo domestig a chyflwyno biliau dŵr domestig nad ydynt yn gysylltiedig â'r dreth gyngor.

Rydym yn galw ar **Unigolion a Chymunedau** i:

- **Ddod yn fwy ymwybodol o'r defnydd o ddŵr ac effeithiau gwastraffu dŵr,** nid yn unig fel cost ariannol ond oherwydd ei gostau i'r amgylchedd.
- **Cymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu defnydd o ddŵr a'r hyn y maent yn ei roi i lawr draeniau.** Mae angen i gartrefi ystyried dewisiadau ar gyfer defnyddio dŵr llwyd ac offer i arbed dŵr.
- **Deall a chefnogi newidiadau i'r defnydd o dir a mynediad at fannau agored** sy'n ategu ail-wylltio ac adnewyddu byd natur.
- **Cael cyfleoedd i gymryd rhan yn y gwaith o reoli a diogelu eu hafonydd** a'u dalgylchoedd fel eu bod yn deall eu cydgysylltiadau a sut i'w helpu.

Rydym yn galw ar **elusennau a chyrff anllywodraethol** i:

- **Ddefnyddio eu harbenigedd ynghylch beth sy'n cefnogi adnewyddu byd natur** i gael pobl i gymryd rhan mewn prosiectau 'Gwyddoniaeth y Dinesydd' a meithrin perchnogaeth gymunedol o'u lleoedd ar gyfer byd natur.
- **Ymgyrchu dros fynediad at ddŵr glân a chynorthwyo gyda'r ymchwil i effeithiau ac atebion.**



**Nid yw** ein system garthffosiaeth yn **addas i bwrpas ac mae angen ei foderneiddio.**

02. **Galwadau i Weithredu:**

# Mynediad Lleol at Natur



## Rydym yn Galwn Am:

### RWYDWAITH O FANNAU GWYRDD BIOAMRYWIOL LLEOL SY'N CANOLBWYNTIO AR IECHYD

**... ac sy'n eiddo i'r bobl ac yn cael eu rhedeg ganddynt.**

Rydym yn galw ar bobl leol i gymryd rhan yn y broses hon mewn cydweithrediad ag elusennau lleol a chyrff anllywodraethol natur fel bod perchnogaeth yn dechrau gyda'r gymuned, ac ein bod ni'n creu ardaloedd sy'n **'goridorau bywyd gwyllt'** effeithiol, yn gwella bioamrywiaeth, yn galluogi mwy o gynhyrchu bwyd lleol ac yn dod â chymunedau'n nes at fyd natur.

### HAWL GYFREITHIOL I FYNEDIAD TEG AT FYD NATUR, FEL HAWL DDYNOL

**... ac i hyn gael ei gefnogi gan gyllid a deddfwriaeth aer glân.** Bydd hyn yn helpu pobl i gysylltu â byd natur, ei werthfawrogi a'i ddiogelu, a gwella llesiant, iechyd a hapusrwydd pobl.

### DDEDDFWRIAETH I FYNNU BOD O LEIAF 12% O ARWYNEBEDD TIR YR HOLL SEILWAITH ADEILADU NEWYDD AC ÔL-OSOD MANNAU CYHOEDDUS YN CAEL EI ROI I NATUR

**... a chefnogi bioamrywiaeth — i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at fyd natur bob dydd.**

Dylai'r ddeddfwriaeth gael ei llywio gan arbenigedd perthnasol (e.e. ecolegwyr sy'n gweithio gyda pheirianwyr) a dylai buddsoddiad a rheolaeth barhaus gael eu sbarduno gan arbenigedd. Bydd gwneud hyn yn gwella'r amgylchedd ac yn rhoi lle blaenllaw iddo ym mywydau pobl.



## 02. **Galwadau i Weithredu:**


# Mynediad Lleol at Natur



Rydym yn galw ar **Lywodraethau Cenedlaethol** i:

- **Pasio deddfwriaeth [i fynnu bod o leiaf 12% o arwynebedd tir yr holl seilwaith adeiladu newydd ac ôl-osod mannau cyhoeddus yn cael eu neilltuo ar gyfer natur]**, wedi ei lywio gan arbenigedd ecolegol perthnasol.
- **Deddfu deddfwriaeth sy'n cydnabod mynediad at natur fel hawl ddynol,** gydag amodau sy'n diogelu bywyd newydd byd natur yn y Deyrnas Unedig rhag niwed posibl a achosir gan bobl yn defnyddio gofod naturiol.

**Dylai pawb, lle bynnag maent yn byw neu'n gweithio, fod â mynediad i natur** i'w helpu i adfywio'n feddyliol, i gael ffordd o fyw iachus ac i fod yn fwy cynhyrchiol yn y gwaith.





Rydym yn galw ar **Lywodraethau Lleol** i:

- **Darparu cyllid i brosiectau, helpu grwpiau i lywio drwy'r rheolau a'r rheoliadau,** a darparu tir yn uniongyrchol ar gyfer prosiectau.
- **Rhaid defnyddio eu pwerau cynllunio i orfodi'r dyraniad sylfaenol hwn** [o 12% o arwynebedd tir ar gyfer natur].
- **Sicrhau'r arbenigedd perthnasol, cydlynu grwpiau cymunedol lleol,** ystyried sut mae penderfyniadau gwyrdd yn rhan o benderfyniadau cynllunio.
- **Ymchwilio i'r hyn mae cymunedau lleol ei eisiau ar gyfer eu gweithgareddau a'u mannau gwyrdd a naturiol**
- **Annog cyfarfodydd cerdded a gwirfoddoli mewn gweithgareddau gwyrdd a seiliedig ar natur** (gydag amser a roddir gan gyflogwyr, yn ystod oriau gwaith).
- **Cyfrannu at gost cynnal a chadw mannau gwyrdd lleol.**

Rydym yn galw ar **elusennau a chyrff anllywodraethol** i:

- **Weithio gyda chymunedau lleol ac awdurdodau lleol** i ganfod mannau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol y gellir eu defnyddio ar gyfer [darparu mynediad lleol at natur].
- **Buddsoddi mewn gweithredu cymunedol a darparu cyllid sbarduno i grwpiau** i roi hwb i brosiectau a ysgogir yn lleol.
- **Sefydlu a rhoi cyhoeddusrwydd i gronfa ddata o brosiectau lleol sy'n gweithio tuag at wella dyfodol natur** er mwyn ysbrydoli pobl i weithredu a dangos y newid y gellir ei gyflawni drwy weithredu lleol.
- **Gwella mynediad at gefn gwlad** gyda'u hasedau eu hunain a hefyd buddsoddi mwy mewn dod â byd natur i ardaloedd trefol.

Rydym yn galw ar **fusnesau** i:

- **Ddarparu nawdd ar gyfer offer a rhoi hadau a phlanhigion i gymunedau lleol.**



Rydym yn galw ar **Unigolion a Chymunedau** i:

- **Gymryd rhan drwy ddechrau gweithredu a sicrhau bod ymgysylltiad yn lledaenu.**

02. **Galwadau i Weithredu:**

# Defnyddio Tystiolaeth yn Effeithiol



## Rydym yn Galw Am:





'**Mae grym mewn gwybodaeth**' ac yn galluogi pawb i wneud penderfyniadau deallus am fyd natur.

### WYBODAETH FFEITHIOL AM NATUR SY'N BERTHNASOL YN LLEOL/ RHANBARTHOL

**... i fod ar gael yn haws ac iddo gael ei hyrwyddo'n gadarnhaol i'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig,** fel bod gwybodaeth y cyhoedd am gyflwr natur y Deyrnas Unedig yn dyfnhau.

### SYLFAEN DYSTIOLAETH DDILYS, DRYLOYW A HYGYRCH

**... sy'n seiliedig ar ymchwil gyhoeddus a phreifat y mae'n rhaid ei defnyddio i lywio penderfyniadau a pholisïau sy'n effeithio ar adnewyddu ac amddiffyn natur yn y Deyrnas Unedig,** fel bod gennym benderfyniadau ynghylch hyder a fydd yn cael yr effaith fwyaf priodol.

### ADOLYGU'R IAITH A DDEFNYDDIR GAN ARBENIGWYR, LLUNWYR POLISÏAU A PHENDERFYNIADAU WRTH GYFATHREBU Â'R CYHOEDD AM NATUR.

**Drwy ganolbwyntio ar adnewyddu ac nid dim ond adfer, rydym yn edrych tua'r dyfodol ac nid i'r gorffennol.**



02. **Galwadau i Weithredu:**



# Defnyddio Tystiolaeth yn Effeithiol



Rydym yn galw ar **Lywodraethau Cenedlaethol** i:

- **Sicrhau bod gan natur rôl fwy amlwg wrth y bwrdd/ar yr agenda** a sicrhau bod gan bawb fynediad hwylus at natur.
- **Sicrhau bod tystiolaeth wedi ei hadolygu gan gymheiriaid yn sail i bolisi'r llywodraeth** ac y deddfir ar gyfer hyn.
- **Creu corff sydd â phwerau priodol i oruchwylio a chyllido'r broses dystiolaeth.**
- **Arwain y newid [ar gyfer adolygu iaith]** drwy weithio gyda rhanddeiliaid, yn enwedig addysg a thrwy ei hasiantaethau i ddefnyddio iaith newydd [hygyrch] wrth wneud penderfyniadau a pholisïau.

Rydym yn galw ar **fusnesau** i:

- **Helpu gyda'r iaith maen nhw'n ei defnyddio wrth farchnata** a defnyddio iaith sy'n arwain at newid cyfeiriad tuag at natur a defnyddio'r gair "adnewyddu" mewn ymarfer a chyfathrebu.

Rydym yn galw ar **Unigolion a Chymunedau** i:

- **Gael eu grymuso a chael adnoddau i ddiogelu a gofalu am fyd natur yn lleol** a chynnwys y gymuned leol yn y broses.

Rydym yn galw ar **elusennau a chyrff anllywodraethol** i:

- **Arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth ffeithiol o safon uchel i'r cyhoedd.**
- **Archwilio sut i ddarparu mwy o fynediad at natur ac eiddo.**
- **Gweithio gyda gwyddonwyr natur a gwyddonwyr cymdeithasol** i gynhyrchu tystiolaeth/gwybodaeth gynyddol ynghylch pam mae natur yn bwysig, a gwneud hyn yn fwy hygyrch a dealladwy.

Rydym yn galw ar **Lywodraethau Lleol** i:

- **Darparu dehongliad fel bod tystiolaeth yn ystyried anghenion lleol.** Gall eraill gymryd rhan drwy rannu "beth sy'n gweithio" ac arferion gorau/effaith.
- **Fel pont rhwng rhanddeiliaid a chymunedau i gyfleu newid mewn iaith [ynghylch natur], cefnogi gweithredu yn lleol ac annog mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd.**



# 03. Creu Cynllun Natur y Bobl

Y sgwrs fwyaf erioed am ddyfodol byd natur y Deyrnas Unedig.

## CAM 1
## Y Sgwrs Genedlaethol

Rhwng 30 Medi a 30 Hydref 2022, cyfrannodd aelodau o'r cyhoedd o bedair gwlad y Deyrnas Unedig bron i 30,000 o ymatebion i alwad agored am eu syniadau a'u profiadau ym myd natur a gyda natur.

**Gofynnwyd i bobl ymateb i dri chwestiwn:**

- **Beth ydych chi'n ei hoffi am fyd natur yn y Deyrnas Unedig? Beth fuasech chi'n gweld ei golli pe bai'n diflannu?**
- **Dychmygwch ei bod hi'n 2050 ac mae byd natur yn y Deyrnas Unedig yn ffynnu. Beth sy'n wahanol i heddiw?**
- **Pa enghreifftiau cyffrous ydych chi wedi eu gweld o bobl yn cydweithio i adfer ac amddiffyn natur yn y Deyrnas Unedig?**

Casglwyd ymatebion ar-lein a thrwy osodiadau rhyngweithiol mewn **74 o leoliadau ar draws y pedair gwlad.** Y nod oedd dechrau'r sgwrs am natur yn y Deyrnas Unedig, a gwneud yn siŵr y gallai Cynulliad Natur y Bobl adeiladu ar yr hyn roedd dinasyddion a chymunedau eisoes yn ei wneud i'w gwarchod a'i adnewyddu.




## CAM 2
## Cynulliad Natur y Bobl



**Cymerodd**
# 103
**o bobl ran,**
**gyda chynrychiolaeth o:**


- Bob grŵp oedran 16 oed a hŷn
- Pob lefel addysg
- Pobl sy'n byw mewn gwahanol leoliadau ledled y Deyrnas Unedig
- Pobl o wahanol gefndiroedd ethnig
- Pobl sydd â safbwyntiau gwahanol am bwysigrwydd natur

# 40
**o safbwyntiau arbenigol:**




gan gynnwys arweinwyr academaidd, cyflwyniadau gan dystion arbenigol, astudiaethau achos a geirdaon, sesiynau holi ac ateb, rhyngweithio mewn grwpiau ac adnoddau eraill.

# 45
**darluniad:**



dod â syniadau, myfyrdodau a gweledigaethau'r rhai a gymerodd ran yn y Sgwrs Genedlaethol yn fyw.

# 36
**awr o drafod:**



Clywodd aelodau'r Cynulliad gan dystion arbenigol, gan adolygu'r syniadau a'r enghreifftiau a rannwyd yn y Sgwrs Genedlaethol, rhannu eu profiadau eu hunain, myfyrio ar safbwyntiau gwahanol am ddyfodol natur a'r newidiadau sydd eu hangen, a chymryd rhan mewn trafodaethau wedi eu hwyluso. Fe wnaethant ddatblygu eu hargymhellion ar sail y rhain.

# 4
**penwythnos:**



Cyfarfu'r Cynulliad dros bedwar penwythnos, dau wyneb yn wyneb yn Birmingham a dau ar-lein rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Chwefror 2023.

# 18
**arbenigwr ar Grŵp Cynghori annibynnol:**



er mwyn sicrhau annibyniaeth, rhyddid rhag rhagfarn a hygyrchedd adnoddau, dewiswyd yr arbenigwyr hyn ar sail eu gwybodaeth a'u profiad o amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i Gynulliad Natur y Bobl, gan gynnwys y diwydiant bwyd, ffermio, cadwraeth natur, iechyd, cyfranogiad, amrywiaeth a thegwch, ymgysylltu cymunedol a llywodraethau cenedlaethol ar draws pedair gwlad y Deyrnas Unedig.

Mae rhagor o fanylion am sut mae Cynllun Natur y Bobl wedi cael ei ddatblygu ar gael yn yr [adroddiad llawn.]

# 04. Gwybodaeth am y cyllidwyr a'r partneriaid cyflawni

Mae Cynllun Natur y Bobl yn gynllun ledled y Deyrnas Unedig sy'n cael ei lywio gan y WWF, RSPB a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'n waith unigryw ar y cyd â chyhoedd y Deyrnas Unedig i amddiffyn ac adfer byd natur yn y Deyrnas Unedig.

## AM YR ARIANWYR

Mae Cynllun Natur y Bobl, a Chynulliad Natur y Bobl, yn cael eu cyllido gan Sefydliad Esmée Fairbairn a Sefydliad Samworth. Cafodd Cynulliad Natur y Bobl ei danysgrifennu gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB a WWF-UK.





## PARTNERIAID DYLUNIO A CHYFLAWNI

Lluniodd y New Citizenship Project y fframwaith strategol cyffredinol ar gyfer y prosiect, yn seiliedig ar broses o'r enw "RAPID Democracy" (testun cyhoeddiad sydd i ddod).

89Up oedd prif bartner cyflawni galwad agored y Sgwrs Genedlaethol am syniadau, gyda New Citizenship Project hefyd yn dadansoddi'r ymatebion a gafwyd.

Involve oedd y prif bartner cyflawni ar gyfer Cynulliad Natur y Bobl.

Arweiniodd Sortition Foundation ar recriwtio cyfranogwyr y Cynulliad drwy loteri ddemocrataidd.

Diolch i Graham Roumieu, darlunydd ac awdur o Toronto, Canada, am ei ddarluniau. Fe'u comisiynwyd fel rhan o Gynllun Natur y Bobol, i ddod a rhai o'r meddyliau a syniadau a rannwyd gan y cyhoedd yn ystod y Sgwrs Genedlaethol yn fyw.

WWF | RSPB | National Trust

involve | New Citizenship Project | Samworth Foundation

Esmée Fairbairn Foundation | European Climate Foundation | Sortition Foundation

Future Arts Centres | 89up









## DIOLCH I AELODAU'R CYNULLIAD A PHAWB A GYFRANNODD AT Y BROSES.

Ni allai Cynllun Natur y Bobl fod wedi cael ei ddatblygu heb fewnbwn a chyfraniad gweithredol miloedd o bobl o bob rhan o’r pedair gwlad, ac yn enwedig y **103 aelod o Gynulliad Natur y Bobl.**

Mae gwaith aelodau'r Cynulliad yn arddangos yr angerdd a'r grym sy'n bodoli ymysg pobl y DU i weithio tuag at amddiffyn ac adfer byd natur.

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o’u hamser i rannu eu syniadau a’u straeon, i aelodau’r Cynulliad am eu hymrwymiad a’u hegni drwyddi draw, ac i bawb sy’n ymwneud â’r gwaith anhygoel sydd eisoes yn digwydd mewn cymunedau ledled y wlad.

# Mae byd natur mewn argyfwng, ond gallwn ei achub gyda’n gilydd.

